Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 936 (Cy. 161) (C. 43)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym adrannau penodol o Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025 ("y Ddeddf"), o ran Cymru. Y rhain yw'r rheoliadau cychwyn cyntaf sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym ar 1 Medi 2025 adrannau 3 a 5 o'r Ddeddf. Mae adran 3 yn mewnosod adrannau newydd 205A, 205B a 205C yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr perthnasol lunio a chyhoeddi cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd blynyddol. Mae adran 5 yn mewnosod adran newydd 94A(3)(ea) yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr carthffosiaeth esbonio'r defnydd sydd i'w wneud o ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn eu cynlluniau rheoli draenio a rheoli carthffosiaeth.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 936 (Cy. 161) (C. 43)

## Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *30 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 17(4)(a) ac (c) o Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2025**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2025—

(a) adran 3 (cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd), i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

(b) adran 5 (datrysiadau sy'n seiliedig ar natur), i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

(**1**) 2025 p. 5.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

30 Gorffennaf 2025